



Defnyddiwch y ffurflen hon os oes angen rhai o'r canlynol arnoch:

- Triniaeth ddeintyddol y GIG
- Gwalltiau gosod a staesiau ffabrig y GIG
- Profion golwg, sbectol neu lensys cyffwrdd

AC

- Os ydych yn byw'n barhaol mewn cartref gofal ac os yw'r Awdurdod Lleol yn eich helpu â chost eich llety; neu
- Os ydych yn cael eich cynnal gan yr Awdurdod Lleol am eich bod wedi gadael gofal yr Awdurdod Lleol yn ddiweddar.

Efallai na fydd rhaid i chi dalu amdanynt, neu efallai y gallech gael ychydig o help tuag at y gost.

Gallwch wneud cais unrhyw bryd – peidiwch ag aros nes bydd angen triniaeth arnoch.

Os oes angen help arnoch neu os oes gennych gwestiynau am y ffurflen hon, ffoniwch y llinell ymholiadau cwsmeriaid ar **0300 330 1343**. Os nad Saesneg yw eich mamiaith, gallwch ffonio'r rhif hwn a dweud wrthym yn Saesneg, neu ofyn i ffrind ddweud wrthym, ym mha iath yr hoffech siarad â ni a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn.

PEIDIWCH Â DEFNYDDIO'R FFURFLEN HON

• Ni allwch gael help os oes gennych chi neu'ch partner fwy nag:

- £16,000 mewn eiddo, cynilion neu unrhyw arian arall (peidiwch â chyfrif y man lle rydych yn byw)
- £24,000 mewn eiddo, cynilion neu unrhyw arian arall os ydych chi'n byw'n barhaol mewn cartref gofal

Sylwer – os oes partner gennych, mae eu heiddo, eu cynilion ac unrhyw arian arall sydd ganddynt yn cyfrif gyda'ch rhai ch.

• Ni allwch ddefnyddio'r ffurflen gais hon:

- Os ydych wedi gadael gofal Awdurdod Lleol yn ddiweddar ond nad yw'r Awdurdod Lleol yn eich cynnal – defnyddiwch y brif ffurflen gais HC1W.
- Os mai dim ond dros dro yr ydych yn aros mewn cartref gofal – defnyddiwch y brif ffurflen gais HC1W.
- Os ydych yn byw'n barhaol mewn cartref gofal ac yn talu am gost lawn y llety eich hunan (efallai eich bod yn gwneud hyn gyda help perthnasau neu ffrindiau, neu elusen) – defnyddiwch y brif ffurflen gais HC1W.

Sylwer – Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Gwarant Credyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu os oes gennych Dystysgrif Eithrio Credyd Treth, mae hawl gennych eisoes i gael help llawn gyda'r costau iechyd hyn ac nid oes angen ichi lenwi'r ffurflen hon – pan fyddwch yn cael triniaeth dywedwch wrth yr ymarferwr pa fudd-dal/credyd rydych yn ei gael. Efallai y gofynnir ichi am dystiolaeth.

RHYBUDD

Gall rhoi gwybodaeth ffug arwain at achos sifil neu droseddol. Disgwylir i'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon gymryd pob gofal rhesymol i wneud yn siwr bod yr wybodaeth a roddir arni yn gywir. Bydd yn rhaid i unrhyw un sydd wedi hawlio cymorth gyda chostau iechyd y GIG ar gam dalu cosb neu efallai y bydd yn cael ei erlyn.

Darllenwch y datganiad a rhowch eich llofnod a'r dyddiad ym **Blwch A** isod.

Yr wyf yn cadarnhau bod yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn, ac rwyf yn deall y bydd y camau priodol yn cael eu cymryd yn fy erbyn os nad ydyw. Er mwyn cadarnhau hyn, rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i chi ddatgelu gwybodaeth berthnasol i'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdodau Lleol.

Blwch A

Llofnod

Dyddiad

/ /

OS YDYCH CHI'N HAWLIO AR RAN RHYWUN ARALL

Dim ond am y rheswm isod y cewch wneud cais ar ran rhywun arall. Rhowch dic yn y blwch os yw hynny'n berthnasol. Chi sy'n gyfrifol am wneud yn siwr bod yr wybodaeth yn gywir. Dylech ddarllen y datganiad a rhoi eich llofnod a'r dyddiad ym **Blwch B** isod. Os nad ydych yn siwr a allwch lofnodi ai peidio, ffoniwch ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343**.

Yr wyf yn gyfrifol am faterion ariannol y person hwn am fod ganddynt anawsterau dysgu neu gyflwr sy'n eu rhwystro rhag rheoli eu materion eu hunain.



Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, ac os nad yw'r rheswm hwn yn berthnasol, dylent ddweud wrthyhych beth i'w ysgrifennu a dylent lofnodi neu roi eu marc ym **Blwch A**.

Yr wyf yn cadarnhau bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn ac rwyf yn deall y gallai camau priodol gael eu cymryd yn fy erbyn os nad ydyw. At y diben o gadarnhau hyn, rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i chi ddatgelu gwybodaeth berthnasol i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac i Awdurdodau Lleol neu iddynt hwy ddatgelu gwybodaeth i chi. Dyma fy nghais i am gymorth gyda chostau iechyd ar ran y person a enwir yn **Rhan 1**.

Blwch B

Llofnod

Dyddiad

/ /

Eich Enw

Eich Cyfeiriad

Cod Post

Rhif Ffôn.

Eich Perthynas â'r Person yn **Rhan 1**

AR ÔL I CHI LENWI'R FFURFLEN HON



Cofiwch y gallwn asesu eich cais yn gynt os byddwn wedi cael yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani. Rhowch dic yn y blychau isod i gadarnhau eich bod wedi llenwi'r ffurflen cyn llawned â phosibl.

Yr wyf wedi ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i mi



Yr wyf wedi llofnod'r datganiad uchod



Nid yw eich cais yn ddilys os nad oes llofnod a dyddiad arno

Darllenwch y nodiadau hyn cyn ichi ddechrau llenwi'r ffurflen – byddant yn eich helpu i wneud cais cywir.

SUT I LENWI'R FFURFLEN HON

Ar y ffurflen hon, rydym yn gofyn i chi roi tic yn y blychau priodol a rhoi manylion pan fyddwn yn gofyn amdanynt. **Mae angen i ni gael gwybod am eich amgylchiadau chi ar y dyddiad yr ydych yn llofnodi'r ffurflen hon.**

SUT I LENWI'R FFURFLEN HON AR RAN RHYWUN ARALL

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir. Dylent ddweud wrthyich beth i'w ysgrifennu ar eu rhan a dylent lofnodi neu adael eu marc ym **Mlwch A**. Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun sydd ag anawsterau dysgu neu salwch sy'n golygu nad ydynt yn gallu rheoli eu materion eu hunain, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir. Dylech lofnodi'r ffurflen eich hun ym **Mlwch B**. Os nad ydych yn siwr a oes gennych hawl i lofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall, ffoniwch ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343, ddydd Llun i dydd Gwener rhwng 8:00am a 6:00pm neu ddydd Sadwrn rhwng 9:00am a 3:00pm.**

BETH DDYLECH CHI EI WNEUD PAN FYDDWCH WEDI LLENWI'R FFURFLEN

Gwnewch yn siwr eich bod wedi ateb pob cwestiwn a'ch bod wedi llofnodi'r ffurflen yn mlwch A neu ym mlwch B, ac wedi nodi'r dyddiad.

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall, gwnewch yn siwr eich bod wedi rhoi eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn ym mlwch B rhag ofn y bydd angen inni gysylltu â chi.

Unwaith y byddwch wedi darllen dros bopeth yn ofalus, dylech rannu tudalennau'r ffurflen – cadwch y dudalen hon er gwybodaeth ac anfonwch y ffurflen yr ydych wedi'i llenwi a'i llofnodi atom ni.

Yn y blwch hwn, nodwch y dyddiad y gwnaethoch bostio'r ffurflen atom ni.

Dyddiad Postio: / /

YR HYN FYDD YN DIGWYDD NESAF

- NHS Business Services Authority: **Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle Upon Tyne NE99 2ZA** fydd yn delio â'ch cais.
- Fel rheol, byddwn yn asesu eich cais cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl cael eich ffurflen. Os byddwn am fwy o wybodaeth cyn y gallwn asesu eich cais, fel rheol byddwn yn asesu eich cais cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl cael yr wybodaeth honno.
- Os oes gennych hawl i gael help byddwn yn anfon tystysgrif atoch yn dweud wrthyich faint, os o gwbl, y bydd rhaid i chi ei dalu tuag at eich costau iechyd. Os hoffech gael tystysgrif newydd, anfonwch ffurflen gais newydd atom 4 wythnos cyn i'r dystysgrif ddod i ben. Gallwch wneud cais arall ar unrhyw adeg os bydd eich amgylchiadau yn newid. Os byddwn yn anfon tystysgrif newydd atoch cyn i'r hen un ddod i ben, gallwch ddefnyddio pa dystysgrif bynnag sy'n rhoi'r help mwyaf i chi – nid oes rhaid i chi aros i'r hen un ddod i ben cyn defnyddio'r un newydd.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, neu os nad ydych wedi clywed oddi wrthym ar ôl 4 wythnos, ffoniwch y Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343, ddydd Llun – dydd Gwener rhwng 8:00am a 6:00pm neu ddydd Sadwrn rhwng 9:00 a 3:00pm.**
- Rydym yn parchu cyfrinachedd ein cwsmeriaid bob amser. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth am eich cais i berson arall heb eich caniatâd chi. Bydd angen iddynt ddyfynnu'r cyfeirnod ar eich tystysgrif.

MANYLION PERSONOL – DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENAU

CYFENW	
ENWAU ERAILL	
MR/MRS/MISS/MS/ARALL	
DYDDIAD GENI	
CYFEIRIAD	
	COD POST
CYFEIRIAD E-BOST	
RHIF FFÔN YN YSTOD Y DYDD GAN GYNNWYS Y COD DEIALU	

AT DDEFNYDD SWYDDOGOL TEL. 1
 DYDDIAD AMSER
 TEL. 2
 DYDDIAD AMSER

1	Ydych chi'n byw'n barhaol mewn cartref gofal?	Nac Ydw	<input type="checkbox"/>	EWCH I GWESTIWN 2 EWCH I GWESTIWN 4
		Ydw	<input type="checkbox"/>	

2	Ydych chi'n cael cymorth gan yr Awdurdod Lleol am eich bod wedi gadael gofal yr Awdurdod Lleol yn ddiweddar?	Nac Ydw	<input type="checkbox"/>	DEFNYDDIWCH Y BRIF FFURFLEN GAIS HC1W EWCH I GWESTIWN 3
		Ydw	<input type="checkbox"/>	

3	Ydy'r Awdurdod Lleol yn rhoi help i chi gyda chost eich llety a/neu gyda'ch costau byw?	Nac Ydw	<input type="checkbox"/>	DEFNYDDIWCH Y BRIF FFURFLEN GAIS HC1W NODWCH ISOD PA AWDURDOD LLEOL SY'N EICH HELPU
		Ydw	<input type="checkbox"/>	
		ENW'R AWDURDOD LLEOL:		

EWCH I'R DUDALEN NESAF

4	Ydy'r Awdurdod Lleol wedi asesu'ch adnoddau ac a ydych chi, o ganlyniad i hynny, yn cael help gyda chost eich llety mewn cartref gofal? Os nad ydych yn siwr, gofynnwch i reolwr y cartref neu i'r metron.	Nac Ydw	<input type="checkbox"/>	OS YDYCH AM WNEUD CAIS AM HELP GYDA'CH COSTAU IECHYD, DEFNYDDIWCH Y BRIF FFURFLEN GAIS HC1W NODWCH ISOD PA AWDURDOD LLEOL SY'N HELPU I DALU'R COSTAU
		Ydw	<input type="checkbox"/>	
		ENW'R AWDURDOD LLEOL:		